OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2839

## Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

## RHAN 2

### Eithriadau gwarchod plant

**2.** Nid yw person sy'n gofalu am blentyn o dan wyth oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr yn gweithredu fel gwarchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o Fesur 2010, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr erthyglau canlynol, 3 i 7.

**3.**—(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—

(i) yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,

(ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "rhiant maeth" ("foster parent") yn cynnwys person y lleolwyd plentyn gydag ef, gan awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu berson sy'n maethu plentyn yn breifat.

**4.** Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.

**5.**—(1) Pan fo person sy'n cael ei gyflogi —

(a) (i) i ofalu am blentyn neu grŵp o siblingiaid ar gyfer rhieni ("y rhieni cyntaf"), neu

(ii) i ofalu am ail blentyn neu grŵp o siblingiaid ar gyfer rhieni ("yr ail rieni") yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, a

(b) yn gofalu am y plant o dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni,

nid yw'n gweithredu fel gwarchodwr plant.

(2) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "cael ei gyflogi" ("*employed*") yw cael ei gyflogi naill ai o dan gontract cyflogaeth neu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau;

(b) mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys person sy'n berthynas i'r plentyn;

(c) mae "grŵp o siblingiaid" ("*sibling group*") yn cynnwys hanner-brodyr a hanner-chwiorydd.

**6.** Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw'n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy'n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.

**7.**—(1) Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am blentyn neu blant fel rhan o'r broses o fod yn gyfaill i rieni'r plentyn hwnnw neu'r plant hynny ac os na chaiff unrhyw daliad ei wneud am y gwasanaeth.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr “taliad” (“*payment*”) yw taliad o arian neu'r hyn sy'n werth arian ond nad yw'n cynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau.